**Ein Stori Lawen**

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

*Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:*
**Ficer/Vicar:** Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
**Y Wardeniaid/Churchwardens:**
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
**Cyfarwyddwr Cerdd:**
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
**Trysorydd**:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
**Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:**
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
**Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:**
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

**Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd**

**EGLWYS DEWI SANT**

www.eglwysdewisant.org.uk

**CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.**

**31 Mawrth 2024**

*Dydd y Pasg*
*Aleliwia! Cododd Iesu! Cododd Iesu!*
*Nef a daear, bloeddiwch hyn.*

**8.00am Y Cymun Bendigaid**
**Darllenydd:** Ifer Arch

**10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân**
**Darllenwyr:** Dawn King / Nia Thomas
**Anthem:** *Mae'r ymdrech drosodd – H.G. Ley*
**Emynau:** 104 (Easter Hymn); 97 (Macabeus);
96 (Pembroke); 99 (I Dduw bo'r gogon)

**6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Pregeth**
**Salm:** 114
**Darlleniadau:** Eseciel 37:1-14 / Luc 24:13-35
**Darllenwyr:** Beti Davies / Delyth Davies
**Emynau:** 109 (Victory); 112 (Rhosymedre 509)
104 (Skerton 535)

**YN EIN GWEDDÏAU**

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Stewart Owen Jones. Ann Wyn Jones, Ann Mears, Barry Thomas (Offeiriad), Gwen Thomas, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

**YN YR EGLWYS:**

**Dydd Mercher Y Pasg 3 Ebrill 2024**
10.30am Y Cymun Bendigaid

**Dydd Sul 7 Ebrill 2024**
*Pasg II (Pasg Bach)*
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi

**HEDDIW**
Cofiwch fod y clociau yn neidio ymlaen un awr yn oriau mân bore'r Pasg eleni, ac felly bydd awr yn llai yn y gwely.
Hefyd, mae'r parcio o amgylch y Cilgant yn rhad ac am ddim drwy'r dydd ar Sul y Pasg. Felly ni fydd rhaid talu am barcio pan fyddwch yn dod i'r gwasanaeth 10.30am. Mynnwch eich hawl i barcio am ddim.

**Y CÔR**
Diolch i aelodau'r côr ac i'n Cyfarwyddwr Cerdd am eu gwaith caled dros yr wythnosau diwethaf yn paratoi ar gyfer Gwener y Groglith a'r Pasg. **Ni fydd ymarfer côr yr wythnos hon**.
*– Y Ficer*

**DIOLCH AM PARATOI YR EGLWYS**
Diolch i'r rhai a fu'n ddiwyd yn glannau'r eglwys a'r llestri arian a phres yn barod ar gyfer y Pasg. Diolch hefyd yn fawr i bawb a fu'n cyfrifol am osod blodau i harddu'r eglwys ar gyfer ein dathliadau heddiw. *Y Ficer.*

**DIOLCH**
Dymuna Dilys Jones ddiolch i bawb yn EDS am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd hi a'r teulu yn ystod yr wythnosau diwethaf.

**BLODAU'R ALLOR – ROTA**
Mae'r rota newydd yng nghefn yr eglwys. Os hoffech roi blodau ar yr allor a wnewch chi osod eich enw wrth eich dewis o ddyddiadau dros ddau Sul os gwelwch yn dda. Mae'r blodau'n para am bythefnos fel arfer.

**NOSON CYMDEITHASU**
Nos Fercher 24 Ebrill yn neuadd EDS byddwn yn cynnal noson gymdeithasol yng nghwmni Karl Davies a fydd yn siarad am ei brofiadau o fyw a gweithio yn Tsieina. Manylion pellach i ddilyn.

**FESTRI'R PASG**
Gyda'r Pasg daw Festri'r Pasg ac eleni fe gynhelir ein Festri dydd Sul 28 Ebrill yn syth ar ôl y Foreol Weddi a gynhelir am 10.30am. Manylion pellach i ddilyn y Sul nesaf.

**GWASANAETH TEIRIEITHOG**
Nos Sul 28 Ebrill am 6.00pm cynhelir gweinyddiad teirieithog (Cymraeg, Cernyweg a Llydaweg) o'r Cymun Bendigaid. Y Parchedig Ganon Jeffrey Gainer (Esgobaeth Tyddewi) fydd yn pregethu.

**BANC BWYD CAERDYDD**
Diolch i bawb a gyfrannodd i'r banc bwyd. Casglwyd ychydig dros 50Kg o nwyddau.

**AGOR YR EGLWYS**
Byddwn yn agor yr Eglwys ar ddyddiau Mercher ac ambell fore Sadwrn o ddechrau mis Ebrill tan ddiwedd mis Hydref rhwng 11.30am a 1.30pm. Os ydych ar gael i helpu i warchod yr eglwys a chroesawu ymwelwyr, hyd yn oed yn achlysurol, a fyddech garediced â rhoi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys neu gael gair â Rhys Jones.

**GWEDDÏAU'R SUL**
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:
- Eglwys Talaith Ynysoedd y Caribî
- Ardal Gweinidogaeth Cwm Llynfi ac Uwch Afan, yr Parchedig Martyn Evans (Arweinydd), Dr Ann Morgan (Cadeirydd Lleyg)

## *Darlleniadau a Gwyliau*

***Dydd Llun y Pasg 1 Ebrill:***
*Actau 2:14, 22-32; Salm 16:1, 5-11; Mathew 28:8-15*
*Gweddïwn:* Esgobaeth Damaturu – Eglwys Nigeria
Clerigion Ardal Gweinidogaeth Cwm Llynfi ac Uwch Afan, y Parchedig Martyn Evans, y Parchedig Beverley Reaney (Ficer)

***Dydd Mawrth y Pasg 2 Ebrill:***
*Actau 2:14, 36-41; Salm 33:1-5, 18-22; Ioan 20:11-18*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Dar-es-Salaam, Eglwys Anglicanaidd Tanzania
Ardal Gweinidogaeth Pedair Afon, y Parchedig Ganon Ian Hodges (Arweinydd), Simon Dring (Cadeirydd Lleyg)

***Dydd Mercher y Pasg 3 Ebrill:***
*Actau 3:1-10; Salm 105:1-9; Luc 24:13-35*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Davao – Eglwys Esgobol y Ffilipinas
Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Mary Stallard a Swyddfa'r Esgob

***Dydd Iau y Pasg 4 Ebrill:***
*Actau 3:11-26; Salm 8; Luc 24:36b-48*
*Gweddïwn dros*: Esgobaeth Tyddewi, yr Eglwys yng Nghymru
Clerigion Ardal Gweinidogaeth Pedair Afon, y Parchedig Ganon Ian Hodges (Arweinydd), y Parchedig Ceri John (Ficer), y Parchedig Geraint John (Ficer), Mark Brampton (Darllenydd)

***Dydd Gwener y Pasg 5 Ebrill:***
*Actau 4:1-12; Salm 116:1-9; Ioan 21:1-14*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Delawre – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Ardal Gweinidogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y Parchedig Mark Broadway (Darpar Arweinydd), Jenny Morgan (Darllenydd Lleyg)

***Dydd Sadwrn y Pasg 6 Ebrill:***
*Actau 4:13-21; Salm 118:14, 22-29; Marc 16:9-15*
*Gweddïwn dros:* Esgobaeth Delhi – Eglwys Unedig Gogledd India
Clerigion Ardal Pen-y-bont ar Ogwr, y Parchedig Mark Boradway (darpar Arweinydd), y Parchedig Roger Pitman (Ficer), Peter Craven a Penny Williams (Darllenwyr Lleyg)